***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 1336 (Cy. 233) (C. 45)

# BWYD, CYMRU
# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 1) 2019

*Gwnaed - - - - 7 Hydref 2019*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 28(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018(**1**).

**Enwi**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 1) 2019.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 14 Hydref 2019**

**2.** Y diwrnod penodedig i adran 1 (isafbris am alcohol) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 ddod i rym, i'r graddau sy'n angenrheidiol ar gyfer gwneud rheoliadau o dan yr adran honno, yw 14 Hydref 2019.

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

7 Hydref 2019

(**1**) 2018 dccc 5.

---

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed gan Weinidogion Cymru, yn dwyn i rym ar 14 Hydref 2019 adran 1 (isafbris am alcohol) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 i'r graddau sy'n angenrheidiol ar gyfer gwneud rheoliadau o dan yr adran honno.